

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

---

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Huw

### **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd**

Diolch am eich llythyr ar 2 Gorffennaf 2021 mewn perthynas â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd i'ch pwyllgor graffu arno.

I ddechrau, trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin, gan ei gyfeirio i'ch pwyllgor chi yn unig. Y rheswm dros hyn yw oherwydd ein hawydd, wrth benderfynu ar gylch gorchwyl y pwyllgor, i sicrhau y gallwch drafod datganoli cyfiawnder a phlisma yn y dyfodol fel rhan o'ch cylch gorchwyl materion cyfansoddiadol ehangach. Fodd bynnag, yn sgil eich llythyr ar 2 Gorffennaf, gwnaethom awgrymu yn ein cyfarfod ar 6 Gorffennaf y gall fod angen i'ch pwyllgor wahodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i gyfarfodydd pan drafodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn.

Fel yn ystod y Bumed Senedd, nid yw cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau polisi a deddfwriaeth wedi'u rhagnodi na'u cyfyngu. Rydym yn fwriadol wedi caniatáu iddynt aros yn eang a phenderfynwyd peidio â darparu rhestr bendant o bynciau ynghlwm wrth bob pwyllgor. Fel yn y ddwy Senedd flaenorol, rydym yn credu bod modd sicrhau gwaith craffu gwell ac osgoi'r perygl bod dull gweithredu'n rhy gul drwy roi'r gallu i bwyllgorau fynd ar drywydd materion ar draws portffolios a meysydd pwnc.



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru](mailto:SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddBusiness@senedd.wales](mailto:SeneddBusiness@senedd.wales)

 0300 200 6565

Yn benodol, trafododd y Pwyllgor Busnes lle y dylai'r cyfrifoldeb am gyfiawnder fod yn strwythur y pwyllgorau yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf. Cytunwyd y dylid neilltuo materion polisi cyfiawnder lefel uchel, megis datganoli cyfiawnder a phlisma, a materion sy'n ymwneud â deddfu, i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Dylai materion eraill sy'n ymwneud â chymhwyso polisi cyfiawnder yn ymarferol fod yn agored i waith craffu gan bwyllgorau polisi a deddfwriaeth priodol. Yn yr un modd, ni ddisgwylir i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad drafod y rhyngweithiadau polisi ehangach presennol â'r system gyfiawnder a phlisma.

Yn gywir



**Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

